

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011

Amser:
10:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Llinos Madeley
Clerc y Pwyllgor
02920898403
HSCCommittee@wales.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

2. Deisebau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (10:00 - 10:10) (Tudalennau 1 - 11)

P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

P-03-301 Cydraddoldeb i'r Gymuned Drawsryweddol

3. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Blaenraglen Waith (10:10 - 10:30)

1. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

4. (10:30 - 11:00) (Tudalennau 12 - 24)

- Lesley Griffiths, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- David Sissling, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rob Pickford, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Eitem 2

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

HSC(4)-02-11(p1)

DEISEBAU A GYFEIRIWYD I'R PWYLLGOR

Diben

1. Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 29 Mehefin i nodi ei benderfyniad i gyfeirio dwy ddeiseb i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hystyried. Mae'r llythyr ynghlwm yn Atodiad A i'r papur hwn.
2. Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried cynnal ymchwiliadau i'r agweddau iechyd ar y deisebau a ganlyn:
 - darparu toiledau cyhoeddus ([P-03-292](#))
 - cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol ([P-03-301](#))
3. Cyfeiriwyd y ddwy ddeisebu hefyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'w hystyried, gan eu bod yn berthnasol i'w gylch gwaith.

Y weithdrefn ar gyfer deisebau

4. Amlinellir y broses ddeisebau yn Rheol Sefydlog 23. Sefydlwyd y broses ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad i roi rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a dylanwadu arno.
5. Rhaid i'r Pwyllgor Deisebau ystyried unrhyw ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Amlinellir y meini prawf ar gyfer barnu a yw deiseb yn dderbyniadwy yn Rheol Sefydlog 23 ac mae'n cynnwys y gofynion a ganlyn:

Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:

- os yw'n cynnwys llai na 10 o lofnodion (oni bai bod y deisebwr yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforaethol o unigolion);
- os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;
- os yw'n gofyn i'r Cynulliad wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Cynulliad bŵer i'w wneud; neu

- os yw'r un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd llai na blwyddyn yn gynt.
6. Wrth ystyried deisebau derbyniadwy, gall y Pwyllgor Deisebau gymryd ystod o wahanol gamau, a bydd yn aml yn gwneud cyfuniad o'r hyn a ganlyn:
- gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru a'i barn, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar;
 - gofyn am wybodaeth a sylwadau gan sefydliadau eraill y mae'n bosibl bod ganddynt farn am y ddeiseb neu ddiddordeb ynddi, er enghraifft, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, undebau llafur, grwpiau cymunedol, neu unrhyw un arall y teimla'r Pwyllgor all ychwanegu gwerth at ei ystyriaethau;
 - gofyn am ragor o wybodaeth gan y deisebwyr, naill ai'n ysgrifenedig neu fel rhan o sesiwn dystiolaeth gan y Pwyllgor;
 - cyfeirio'r ddeiseb i bwyllgorau eraill y Cynulliad neu sefydliadau allanol;
 - cynnal ymchwiliad pwyllgor.

Cefndir y deisebau a gyfeiriwyd

Darparu toiledau cyhoeddus

7. Cyflwynwyd y ddeiseb ynghylch darparu toiledau cyhoeddus ym mis Mehefin 2010 gan y Cynghorydd Louise Hughes. Dyma eiriad y ddeiseb:

Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r effeithiau posibl ar iechyd a lles cymdeithasol a allai ddeillio o gau toiledau cyhoeddus ac annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus.

Casglodd y ddeiseb 430 o lofnodion. Ceir crynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor Deisebau yn Atodiad B i'r papur hwn.

Cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol

8. Cyflwynwyd y ddeiseb ynghylch cydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol ym mis Medi 2010 gan Transgender Cymru. Dyma eiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau y rhoddir yr un gefnogaeth a chymorth uniongyrchol i'r gymuned drawsrywiol ag a roddir i gymunedau tebyg, fel y grwpiau cymorth ar gyfeiriadedd rhywiol, i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer y gymuned drawsrywiol ac ymwybyddiaeth ohoni.

Mae'r ddeiseb wedi casglu 113 o lofnodion. Ceir crynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor Deisebau yn Atodiad C i'r papur hwn.

Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

9. Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn nodi'r camau y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu cymryd mewn perthynas â'r cais hwn gan y Pwyllgor Deisebau. Fodd bynnag, efallai yr hoffai aelodau'r Pwyllgor ystyried y camau a ganlyn:

- ymateb drwy nodi y bydd y Pwyllgor yn ystyried y deisebau yn nhymor yr hydref pan fydd yn edrych ar y dull strategol a roddir ar waith ar gyfer ei flaenraglen waith ac yn sgil unrhyw gamau a gymerir gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y deisebau; neu
- dewis un o'r deisebau fel rhan o ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor neu fel sail iddo.

10. Gwahoddir y Pwyllgor i:

- nodi cais y Pwyllgor Deisebau i ystyried cynnal ymchwiliad i'r agweddau iechyd ar y ddwy ddeiseb (paragraff 2);
- trafod sut mae'n dymuno bwrw ymlaen â'r cais (paragraff 9); a
- cytuno y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Deisebau i amlinellu penderfyniad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Atodiad A

Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Pwyllgor Deisebau

Petitions Committee

Mark Drakeford AM,
Chair of Health and Social Care
Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Our ref: P-03-292/301

29 June 2011

Petitions: P-03-292 Public Toilet Provision

P-03-301 Equality for the Transgender Community

At a recent Petitions Committee meeting, we agreed to refer to two petitions to the Health and Social Care Committee.

P-03-292 Public Toilet Provision

We are currently considering a petition submitted by Cllr Louise Hughes, which has collected 430 signatures:

We, the undersigned, call upon the National Assembly for Wales to investigate the health and social well-being implications resulting from public toilets closures and to urge the Welsh Government to issue guidance to local authorities to ensure adequate public toilet provision.

The Welsh Senate of Older People has expressed its support for the aims of the petition, and this correspondence is enclosed, along with supporting information from the petitioner, which includes a report by Age Cymru entitled 'Nowhere to Go'.

At our Committee meeting on 21 June, we agreed to enquire as to whether the Health and Social Care Committee would consider undertaking an inquiry into the health aspects of this important issue.

P-03-301 Equality for the Transgender Community

We are also considering a petition submitted by Transgender Wales which collected 113 signatures:

We the undersigned call upon the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to ensure that the transgender community is given equal support and direct assistance, as given to comparable communities such as Sexual Orientation support groups, to promote equality and awareness for the transgender community.

The Committee in the third Assembly took oral evidence from the petitioners, and corresponded with the First Minister on the issues raised by the petition. Through their consideration a range of issues were highlighted, but a primary concern of the petitioners was related to healthcare provision for people with gender dysphoria. I have enclosed copies of correspondence considered by the previous Committee for your information.

At our Committee meeting on 21 June, we agreed to enquire as to whether the Health and Social Care Committee would consider undertaking an inquiry into the health aspects of this important issue.

Please note we have also highlighted both these petitions with the Communities, Local Government and Equalities Committee.

Thank you for your consideration of this issue.

Yours sincerely,

William Powell AM
Chair, Petitions Committee

Atodiad B

Crynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor Deisebau o'r ddeiseb ar ddarparu toiledau cyhoeddus

1. Cyflwynwyd y ddeiseb ym mis Mehefin 2010.
2. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y mater hwn, yn ogystal â Chadeirydd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Trydydd Cynulliad yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater. Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac at bob awdurdod cynllunio lleol i ofyn:

Pa ofynion, os o gwbl, sydd gennych i sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn datblygiadau y tu allan i drefi a datblygiadau cyhoeddus eraill mewn lleoliadau cefn gwlad/ynysig.

3. Ymatebodd 23 o'r awdurdodau cynllunio lleol o gyfanswm o 25. Nid oes gan yr un o'r awdurdodau ofyniad penodol ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus mewn lleoliadau cefn gwlad neu ynysig, ar wahân i awdurdod Sir y Fflint, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod parciau lori yn darparu cyfleusterau toiled digonol.
4. Roedd consensws ymysg y rhai a ymatebodd y bydd y rhan fwyaf o ddatblygwyr yn cynnwys toiledau cyhoeddus os oes disgwyl y bydd y cyhoedd yn defnyddio'r datblygiad. Amlygwyd y ffaith bod TAN 12 yn annog cynnwys toiledau cyhoeddus hygyrch mewn adeiladau masnachol newydd a chyhoeddus. Nododd nifer o gynghorau y byddent yn codi'r mater o ddarparu toiledau cyhoeddus pe byddent yn teimlo nad oedd darpariaeth ddigonol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cynnal profion penodol er mwyn gorfodi gofyniad cynllunio. Mae Ynys Môn wedi cynnwys darpariaethau ar gyfer toiledau cyhoeddus newydd mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio. Disgrifiodd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro sut mae'n ceisio mynd i'r afael â mater penodol yn St Justinian i wella'r ddarpariaeth.
5. Darparodd rhai awdurdodau wybodaeth am ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn eu hardaloedd, gan gynnwys Blaenau Gwent, a nododd ei fod yn bwriadu annog y defnydd o doiledau cyhoeddus yng nghanol trefi drwy'r Grant Mynediad i Gyfleusterau Lleol, a ddarperir gan y Llywodraeth i

annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth gyda busnesau lleol i roi mynediad am ddim i'r cyhoedd i'w toiledau.

6. Nododd ymateb y Gweinidog mai'r awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau toiled ac na fyddai cyhoeddi canllawiau gan Lywodraeth Cymru'n sicrhau darpariaeth well. Mewn ymateb i ragor o ohebiaeth, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai 18 o awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y Cynllun Grant Mynediad i Gyfleusterau Lleol yn 2010-11.
7. Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ar y pryd i ofyn a ellir gweithredu gofyniad i ganolfannau siopau ddarparu cyfleusterau digonol drwy'r rheolau cynllunio. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oes darpariaeth o'r fath ym Mholisi Cynllunio Cymru nac yn y Nodiadau Cyngor Technegol.
8. Gofynnodd y Pwyllgor am farn Cymdeithas Toiledau Prydain, a ymatebodd drwy ddweud ei bod yn cefnogi'r ddeiseb yn fawr iawn. Nododd y Gymdeithas mai'r rheswm dros gau'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus dros yr 20 mlynedd diwethaf yw bod penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth yn cael eu gwneud yn ôl disgrisiwn, yn ogystal â'r pwysau a roddir ar arian awdurdodau lleol. Mae hyn wedi dwysau yn y misoedd diwethaf oherwydd toriadau difrifol i'r gyllideb sy'n angenrheidiol bellach oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.
9. Mynegodd y Gymdeithas bryder bod y ddarpariaeth o doiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru wedi parhau i leihau a bod disgwyl i fwy o doiledau gael eu cau.

Gwybodaeth arall

10. Mewn Dadl Fer yn y Cyfarfod Llawn ar doiledau cyhoeddus yng Nghymru ym mis Medi 1010, galwodd Jenny Randerson AC am osod dyletswydd statudol ar awdurdodau i ddarparu toiledau cyhoeddus. Yn ei ymateb i'r ddadl, cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n trafod y cynnig i wneud darparu cyfleusterau toiled yn ddyletswydd statudol gyda'r Gweinidog perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor eisoes wedi cael ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, fel y nodir uchod.

11. Mae Senedd Pobl Hŷn Cymru wedi mynegi ei chefnogaeth i ddibenion y ddeiseb mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor.
12. Gellir gweld gywbodaeth gefndirol a ddarparwyd gan y deisebydd ar y mater hwn, gan gynnwys adroddiad gan Help the Aged yng Nghymru, fan hyn: <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s1121/P-03-292%20Darparu%20Toiledau%20Cyhoeddus.pdf>

Atodiad C

Crynodeb o drafodaeth y Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb ar gydraddoldeb i'r gymuned drawsryweddol

1. Cyflwynwyd y ddeiseb ym mis Medi 2010.
2. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd i ofyn am ei farn gychwynol, ac at y deisebwyr gan gyfeirio at yr ymgynghoriad ar 'Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru'. Byddai'r dyletswyddau newydd yn berthnasol i wyth maes cydraddoldeb, gan gynnwys ailbennu rhywedd. Ar y pryd, roedd dyletswyddau cyflogwyr yn ofynnol o ran pob nodwedd ac eithrio cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, a dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd wrth y Cyfarfod Llawn y byddai'n ystyried y mater hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.
3. Cyfeiriodd ymateb y Gweinidog i'r ohebiaeth at Gynllun Cydraddoldeb Sengl y Llywodraeth, sy'n cynnwys trawsrywedd fel maes cydraddoldeb, a nododd y bu ymgynghori â'r gymuned drawsryweddol yn ail gam y broses ymgynghori ar y cynllun. Cyfeiriodd hefyd at y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb 2010-11 fel ffynhonnell ariannu ar gyfer grwpiau cymorth a dywedodd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gronfa hon gan sefydliadau sy'n ymdrin yn benodol â materion trawsryweddol.
4. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan y deisebwyr ym mis Ionawr 2011, a oedd yn amlygu'r anawsterau y mae nifer o aelodau o'r gymuned drawsryweddol yn eu hwynebu, yn enwedig o ran materion cydraddoldeb ac ym meysydd iechyd, addysg a chyflogaeth. Amlygodd y deisebwyr bryderon ynghylch ansawdd y cyngor a'r cymorth a roddir i'r gymuned drawsryweddol, a gwnaethant gyfeirio at un achos lle'r oedd unigolyn wedi gorfod mynd i'r ysbyty ar ôl cael cyngor gan gynghorwr nad oedd wedi'i hyfforddi.
5. O ran ariannu, nododd y deisebwyr eu bod wedi cael cyngor bod eu sefydliad yn rhy fach i fod yn gymwys i gael arian Ewropeidd ac nad oeddent wedi cael gwybodaeth am y ffynonellau arian eraill sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Ni wnaeth y deisebwyr fynd ar drywydd y mater

ariannu oherwydd eu bod yn teimlo bod y ffaith eu bod yn gorfod disgwyl yn hir i gael eu cyfeirio i gael triniaeth yn fater pwysicach.

6. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog i ofyn am ymateb ar draws y Llywodraeth ar y materion hyn, yn ogystal ag at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i ofyn am ei farn.
7. Atebodd y Comisiwn drwy ddweud bod pobl trawsryweddol yn wynebu agweddau negyddol parhaus yng Nghymru a bod angen addysgu a chodi ymwybyddiaeth pobl, gwybodaeth a chynghor hygyrch, cael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth, a chynrychiolaeth fwy cadarnhaol o bobl trawsryweddol yn y cyfryngau.
8. Atebodd y Prif Weinidog ar ran Llywodraeth Cymru ar faterion ynghylch gwasanaethau iechyd, ariannu ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, addysg a chyflogaeth. Cyfeiriodd at y Ddeddf Cydraddoldeb newydd a'r ffaith y bydd dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dod i rym ym mis Ebrill 2011; a'r ffaith y bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau hunaniaeth rhywedd, yn ceisio gwella sut y caiff gwasanaethau triniaeth eu cynllunio a'u diogelu, ac yn ymgynghori â chynrychiolwyr o'r gymuned drawsryweddol.
9. Cadarnhaodd y deisebwyr eu bod yn gweithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i wella gwasanaethau triniaeth, a gwnaethant nodi y byddent yn disgwyl i weld sut y byddai'r Llywodraeth newydd (ar ôl etholiad 2011) yn mynd i'r afael â'r materion hyn.
10. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog eto i dynnu ei sylw at adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Not Just Another Statistic', i amlygu'r ffaith bod yr angen i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus yn thema sy'n codi'n fynych yn y dystiolaeth a gafwyd, ac i ofyn am wybodaeth am wasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys amseroedd aros.
11. Atebodd y Prif Weinidog gan ddweud bod rhestrau aros yn amrywio gan ddibynnu ar gyfnod yr asesiad clinigol a phrofiad gwirioneddol, a darparodd y polisi comisiynu ar gyfer pryder ynghylch rhywedd. Cyfeiriodd y Prif Weinidog y Pwyllgor hefyd at y Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Lles Rhywiol.

12. Gellir gweld gywbodaeth gefndirol sy'n berthnasol i'r ddeiseb honfan hyn:
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s1132/P-03-301%20Cydraddoldeb%20ir%20gymuned%20drawsryweddol.pdf>

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol HSC ()

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2011

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diweddariad

Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndir er mwyn llywio trafodaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2011.
2. Fel y gofynnwyd, mae'r papur hwn yn darparu manylion o flaenoriaethau'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar gyfer y Cynulliad hwn, yn cynnwys deddfwriaeth ac ymrwymïadau maniffesto eraill.
3. Mae hefyd yn darparu diweddariad ar nifer o faterion a fu'n destun adroddiadau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol blaenorol.

CYFLWYNIAD

4. Amlinellwyd amryw o'r blaenoriaethau ar gyfer agenda Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant y Cynulliad hwn yn *Sefyll Cornel Cymru*.
5. Mewn perthynas â'r GIG, mae gan ein hymrwymïadau maniffesto ffocws clir ar atal iechyd gwael, gwella canlyniadau iechyd, a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn bwriadu cymryd camau i wella mynediad at feddygon teulu, rhoi dechrau iach mewn bywyd i blant, cyflwyno archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed, a pharhau gyda'r gwelliannau a welwyd eisoes mewn gwasanaethau canser, cardiaidd a strôc yng Nghymru. Bydd gwaith i wella amseroedd ymateb ambiwlans a lleihau mynychu adrannau brys yn ddiangen hefyd yn flaenoriaeth.
6. Yn fwy cyffredinol, rydym am sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt mor agos at eu cartrefi ag sy'n bosibl mewn system iechyd integredig, diogel a chynaliadwy. Nid ydym am system iechyd sy'n cael ei dargyfeirio gan gystadleuaeth a phrosesau comisiynu cymhleth. Rhoddir manylion pellach ar ein blaenoriaethau allweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn cynnwys deddfwriaeth yn **Atodiad 1**.
7. Yn unol â'n maniffesto, mae ein blaenoriaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio ar gyflenwi gweledigaeth *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Wrth galon y rhain y mae gwerthoedd tegwch a lles i bawb a chred mewn gwasanaethau cyhoeddus. Rydym am wneud yn siŵr bod y math iawn o ofal yno pan fo'i angen ac nad mater o'r math o

gymorth y gall pobl ei fforddio ydyw. Nodir rhagor o fanylion ynglŷn â'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn **Atodiad 2**.

8. Mae **Atodiad 3** yn darparu diweddariad ar y materion allweddol a godwyd yn Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol.
9. Trafodir ein blaenoriaethau mewn perthynas â'r Agenda Plant yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

ATODIAD 1: BLAENORIAETHAU CYSYLLTIEDIG AG IECHYD

Mae'r manifesto yn gosod allan y rhaglen ar gyfer Llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf ac mae'n cynnwys amrediad o ymrwymïadau mewn perthynas â'r agenda iechyd sy'n adeiladu, gwella a sefydlu gwaith sydd eisoes ar droed. Bydd blaenoriaethau cynnar ar gyfer gweithredu yn cynnwys y canlynol:

(i) Gwella mynediad at feddygfeydd teulu gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn

Cyflwyno gwasanaethau meddyg teulu mwy hygyrch er mwyn caniatáu i bobl gael mynediad at wasanaethau meddyg teulu lleol ar yr adeg fwyaf hwylus iddynt hwy. Eisoes mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb gyda BMA Cymru, sy'n darparu oriau agor estynedig mewn tua 10% o feddygfeydd Cymru. Bydd y wefan cleifion newydd *Fy Iechyd Ar-lein* yn ei gwneud yn haws i bobl sy'n gweithio drefnu apwyntiad yn eu meddygfa leol.

(ii) Ehangu Dechrau'n Deg

Rydym am sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau yn eu bywydau ac fel rhan o hyn byddwn yn:

- Dyblu nifer y plant sy'n elwa yn sgil gwella gwasanaethau ymwelwyr iechyd, lleoedd meithrin am ddim a gwell cefnogaeth i deuluoedd trwy ein rhaglen *Dechrau'n Deg*; ac
- Ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen a dyblu nifer y rhai sydd ar eu hennill o *Dechrau'n Deg* i 36,000, fel bod bron i chwarter holl blant Cymru rhwng 0-3 oed yn gallu elwa ohoni.

(iii) Cyflwyno Archwiliadau Iechyd i bobl dros 50 oed

Rydym yn bwriadu parhau i ddatblygu ymagwedd fwy ataliol tuag at ofal iechyd, trwy gyflwyno rhaglen o archwiliadau iechyd blynyddol i bobl dros 50 oed. Bydd yr archwiliadau hyn yn helpu i sicrhau bod asesiad a chynghor strwythuredig ar gael yn hwylus.

(iv) Gwella diagnosis a thriniaeth Cancer

Mae rhoi *Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru* ar waith er mwyn cyflenwi cyfraddau achosion, marwolaethau a goroesiad yng Nghymru sydd ymysg y gorau yn Ewrop erbyn 2015 yn dal i fod yn flaenoriaeth. Er mwyn cyfeirio ac arwain gweithgaredd ar lefel genedlaethol a lleol i gyflawni ein nodau, rydym yn datblygu Cynllun Cyflenwi Cymru gyfan ar gyfer Cancer, sy'n cael ei lywio gan y ddogfen bolisi a gynhyrchwyd gan Cymorth Cancer Macmillan ym mis Mawrth, er mwyn helpu i sicrhau ffocws ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rydym yn gweithio gyda Macmillan i symud y templed cynllun gofal drafft y maent wedi'i baratoi yn ei flaen, ac a fydd, ynghyd â'r rôl Gweithiwr Allweddol a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2011, yn helpu i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol tuag at asesu anghenion unigol y claf. Er

mwyn helpu i ddeall beth sydd angen i ni ei wneud yn well, megis diagnosis mwy cynnar o ganser, mae Cymru yn cymryd rhan ym Mhartneriaeth Ryngwladol Meincnodi Canser.

(v) Gwella Gofal Strôc

Mae atal strôc a'i drin fel argyfwng meddygol yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) gynlluniau gweithredu yn eu lle ar gyfer cyflawni safonau a chanllawiau cenedlaethol erbyn 2015. Erbyn hyn mae BILlau yn perfformio'n well ar y cyfnod dwys o ofal, ond gofynnwyd iddynt ymrwymo i amserlen ffurfiol gyda golwg ar pryd y byddant yn cydymffurfio'n llawn ym mhob ysbyty sy'n derbyn cleifion strôc. Rydym wedi buddsoddi mewn offer telefeddygaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth thrombolysis 24 / 7 ar draws Cymru er mwyn helpu i optimeiddio canlyniadau. Mae offer monitro ar gyfer y targedau deallus i roi diagnosis ac ymateb i achosion o strôc bach ac ar gyfer adsefydlu cynnar yn cael eu datblygu, a bydd y rhain yn gweithredu fel offeryn grymus i wella ansawdd y gofal.

(vi) Mynd i'r afael â Chlefyd y Galon

Mae clefyd y Galon yn dal yn lladdwr mawr yng Nghymru ond ein nod yw cyflawni cyfraddau achosion a marwolaethau a fydd yn cymharu gyda'r gorau yn Ewrop erbyn 2015. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd y Galon yn gosod amrediad o safonau i sicrhau gofal o ansawdd uchel ac mae gan bob BILl Gynllun Cyflenwi yn ei le ar gyfer y Fframwaith. Er mwyn cyfeirio ac arwain gweithgaredd ar lefel genedlaethol a lleol ac i ategu Cynlluniau Cyflenwi'r BILlau, rydym yn datblygu Cynllun Cyflenwi Cymru gyfan ar gyfer Clefyd y Galon.

(vii) Gweithredu *Ein Dyfodol Iach*

Mae parhau i ailgioriannu cynllunio ac adnoddau'r gwasanaeth iechyd tuag at atal ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Un o amcanion allweddol y GIG dros y pum mlynedd nesaf yw gwneud mwy i ddiogelu a gwella iechyd pawb. Adlewyrchir hyn yn Fframwaith Ansawdd Blynyddol 2011/12 a'r gofyniad i BILlau gynhyrchu Fframweithiau Strategol Iechyd Cyhoeddus Lleol. Fel rhan o hyn, mae gweithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd* a gyhoeddwyd y llynedd yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwella iechyd a lles pawb, gyda chyflymder y gwelliant yn cynyddu yn gymesur â lefel yr anfantais. Mae'n gosod targed newydd i wella disgwyliad oes iach i bawb ac i gau'r bwch rhwng pob cwintel o amddifadedd ar gyfartaledd o 2.5% - erbyn 2020.

Y brif ymgyrch iechyd cyhoeddus bresennol yw Newid am Oes, ymgyrch wedi'i hariannu ar draws adrannau Llywodraeth (£90k yr un gan Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Treftadaeth a'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth) i annog pobl i fwyta'n fwy iach a chynyddu gweithgarwch corfforol. Yn unol ag ymrwymiad y manifest, mae

cynigion yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd i ehangu Newid am Oes i gynnwys alcohol, ac mae dewisiadau ymgyrchu ar roi'r gorau i ysmegu hefyd yn cael eu hystyried.

Mae gwerthusiadau o ymgyrchoedd rhoi'r gorau i ysmegu sy'n canolbwyntio ar y cyfryngau torfol wedi nodi y gall yr ymgyrchoedd hynny adeiladu gwybodaeth, newid safbwyntiau ac agweddau allweddol, cynyddu galwadau i linellau rhoi'r gorau i ysmegu, a chyfrannu, ar y cyd ag elfennau rhaglen rheoli tybaco eraill, at ostyngiad cyffredinol yn y defnydd o dybaco a chynyddu'r niferoedd sy'n rhoi'r gorau i ysmegu. Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco drafft ar gyfer Cymru yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol, ac rydym yn ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd i wahardd ysmegu mewn cerbydau. Rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu drafft a byddwn yn lansio'r Cynllun diwygiedig yn yr hydref, a fydd yn cynnwys camau gweithredu ar ymgyrchoedd rhoi'r gorau i ysmegu.

(viii) Ymateb i'r Adroddiad Urddas mewn Gofal

Rydym eisoes wedi cymryd camau i ymateb i adroddiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ac rwyf wedi nodi manylion hyn yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2011. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda staff GIG i'w galluogi i dreulio mwy o amser gyda chleifion hŷn, gan roi'r parch a'r cymorth dyledus iddynt. Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r safonau diwygiedig diweddar, rwyf wedi gofyn i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal archwiliadau ar hap ar safonau urddas mewn gofal ar gyfer pobl hŷn yn ein hysbytai. Bydd fy swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda'r BILlau, monitro gweithrediad eu Cynlluniau Gweithredu a baratowyd mewn ymateb i adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn.

(ix) Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, gyda'r angen i ddatblygu gwasanaethau cyson sydd ar gael yn hwylus i bob person ifanc. O fewn y flwyddyn ddiwethaf, lansiwyd cynllun gweithredu cenedlaethol i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant. Byddwn yn parhau i gryfhau'r amrediad o CAMHS, yn cynnwys mynediad at wasanaethau arbenigol i'r glasgoed hŷn a phobl ifanc.

Mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, rydym eisoes yn gweithio i weithredu'r Mesur Iechyd Meddwl a'r Ddogfen Gweledigaeth Dementia. Rydym hefyd yn edrych yn agos ar ganfyddiadau Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ynddo i baratoi fframwaith strategol newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

(x) Cynnal a Gwella Perfformiad y GIG

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn dal i gael eu gweld a'u trin o fewn ein targedau amser aros ar gyfer atgyfeirio am driniaeth (RTT) ac rydym am gynnal ac adeiladu ar y perfformiad yma.

Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer diwedd Mawrth 2011, os caiff arbenigedd orthopedig ei hepgor, bod y perfformiad amser aros i Gymru gyfan yn dal i fod yn uwch na'r targed 95% 26 wythnos, ac mae wedi bod felly ers Hydref 2009. Bydd gwella'r perfformiad ar gyfer cleifion orthopedig yn flaenoriaeth am y flwyddyn gyfredol.

Byddwn yn parhau â'r gwaith o dan y Fframwaith Ansawdd Blynyddol i ganolbwyntio ar ganlyniadau cleifion. Cyflwynir y Fframwaith Cyflenwi i gefnogi gweithrediad y Fframwaith Ansawdd Blynyddol i'r GIG yn y mis yma.

(xi) Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Mae gwneud defnydd gwell o TGCh yn profi'n ffordd effeithiol o gyflenwi'r arbedion rydym eu hangen yn ogystal â lleihau niwed, gwastraff ac amrywiadau.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi'n cyflwyno gwasanaethau digidol newydd a fydd yn cyflenwi cofnod electronig integredig am gleifion, gan roi mynediad i glinigwyr at wybodaeth hanfodol, pryd a lle y mae ei hangen. Fe all staff iechyd ddefnyddio gwasanaethau ar-lein i adnabod y claf y maent yn ei drin yn gywir, cofnodi gwybodaeth a gweld hanes meddygol y claf, neu archebu profion a gweld y canlyniadau ar-lein - dim mwy o redeg ar ôl adroddiadau papur. Yn gynyddol fe all cleifion a dinasyddion gael mynediad hwylus at wasanaethau gwybodaeth o faterion lles i drefnu apwyntiadau a gweld canlyniadau profion.

Rydym hefyd yn ystyried defnydd mwy strategol o dechnolegau a gwasanaethau digidol megis teleiechyd, telefedygaeth a theleofal, i gyflenwi gofal yn nes adref, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn hirach, grymuso gweithwyr gofal a helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau ein poblogaeth sy'n heneiddio'n gyson.

(xii) Datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg

Mae cryfhau darpariaeth llinell flaen yn yr iaith Gymraeg mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol. Mae gwaith ar ddogfen Strategol eisoes ar droed a byddwn yn ymgynghori ar y cynigion yn ddiweddarach eleni.

Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae ein rhaglen ddeddfwriaethol gysylltiedig ag iechyd ar gyfer y Cynulliad yma yn dal dan drafodaeth ond mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:

(i) Cynyddu Rhoi Organau

Yn ei ddatganiad ar flaenoriaethau deddfwriaethol cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Bil Rhoi Organau yn cael ei gyflwyno i ddarparu ar gyfer system o ddewis peidio â rhoi organau, wedi'i gefnogi gan raglen addysgu gynhwysfawr. Sylfeinir y Bil ar waith polisi manwl ar amrediad o faterion cymhleth yn ymwneud â goblygiadau gweithrediadol, technegol, cyfreithiol ac ariannol cyflwyno system feddal o ddewis peidio â rhoi organau yng Nghymru.

(ii) Cydsyniad Rhieni ar gyfer Tyllu Cosmetig

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori ynghylch a ddylid cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gofyn am gyfranogiad a chydsyniad rhieni ar gyfer gweithdrefnau tyllu cosmetig ar berson ifanc o dan oedran penodol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oed cydsynio statudol ar gyfer tyllu cosmetig ac mae tyllu o'r fath o dan oed yn gyfreithlon, ar yr amod bod cydsyniad dilys yn cael ei roi - y gall yr unigolyn dan oed ei hun ei roi os yw ef neu hi yn gallu deall natur y weithred a gyflawnir. Bwriedir cyhoeddi dogfen ymgynghori, yn ceisio barn ar gyflwyno'r polisi. Unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys byddaf yn penderfynu ynghylch sut i symud ymlaen.

(iii) Gweithredu Rheoliadau'r Mesur Iechyd Meddwl

Pasiwyd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gan y Cynulliad Cenedlaethol yn Nhachwedd 2010, a derbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010. Mae ei amcanion polisi allweddol fel a ganlyn:

- Ehangu gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl sylfaenol lleol;
- Gwella cydlynu a chynllunio gofal ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i ddefnyddwyr blaenorol y gwasanaeth; ac
- Ehangu Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983) ar gyfer cynorthwyiadau tymor byr, nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnwys y cam diogelu yma, a chleifion anffurfiol.

Bydd y Mesur a'i is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, ac arweiniad statudol ac anstatudol, yn cefnogi cyflenwi gofal modern, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, a bydd hefyd yn sicrhau bod gan bob claf o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd gynllun gofal a thriniaeth unigol sy'n cael ei oruchwylio gan gydlynnydd gofal. Bydd y cydlynnydd gofal yn gweithio gyda'r claf, a gofawyr lle mae hynny'n berthnasol, er mwyn llunio'r cynllun a'i adolygu'n rheolaidd.

(iv) Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Rydym hefyd yn ystyried deddfwriaeth i alluogi Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau gorfodol ar gyfer mesur iechyd cyhoeddus syml ond effeithiol i ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall, gyflym i ddefnyddwyr ar safonau hylendid busnes bwyd, fel eu bod yn gallu gwneud dewisiadau mwy gwybodus am le i fwyta allan neu siopa am fwyd.

Dangosodd yr achos E. coli yn Ne Cymru yn 2005 pa mor bwysig yw diogelwch bwyd. Bydd y cynllun yn gorfodi'r trefniadau gwirfoddol ond anghyflawn presennol i arddangos sgoriau Hylendid Bwyd ac felly'n helpu i wella diogelwch bwyd a gwarchod iechyd cyhoeddus a buddiannau defnyddwyr.

Arweiniodd cynlluniau tebyg yn Nenmarc at gynnydd o 70% i 86% mewn busnesau gyda hylendid bwyd da ac yn Nghaliffornia gwelwyd gostyngiad o 13% yn y niferoedd a dderbyniwyd i ysbysai oherwydd clefydau cysylltiedig â bwyd.

(v) Deddfwriaeth Iechyd Cyhoeddus

Roedd y ddogfen bolisi *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd mewn Cynlluniau Gweithredu Strategol* yn addo gweithredu er mwyn cryfhau'r ffocws ar gau'r bwlch anghydraddoldebau iechyd a chyflwyno targed ar gyfer cau'r bwlch.

Roedd y maniffesto'n cynnwys ymrwymadau ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym bellach yn ystyried yr angen i ddarparu sail ddeddfwriaethol i gyflenwi disgwyliad oes a lles gwell a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

ATODIAD 2: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Blaenoriaethau ac Ymrwymadau

Mae llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn uchelgeisiol drostynt. Amlinellir ein gweledigaeth a'n dyheadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* ac yn y maniffesto. Mae tegwch a lles pawb yn werthoedd cwbl greiddiol i'r rhain ynghyd â chred mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi eu gwreiddio mewn syniad bod angen i bobl wybod, pan fydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol arnynt, y gallant gael y gofal y mae arnynt ei angen nid dim ond y gofal y gallant ei fforddio

Rydym yn ymrwymedig i wasanaethau cymdeithasol integredig o fewn llywodraeth leol, gan sicrhau cynaliadwyedd, ac atgyfnerthu ein ethos o wasanaethau cymdeithasol wedi eu hadeiladau o gyloch llais cryf i ddinasyddion, yn hytrach nag ar fodel defnyddwyr o ddewis a hunan-gyfrifoldeb annibynnol i unigolion.

Pwnc ein rhaglen yw'r llywodraeth yn cydweithio gyda'i phartneriaid a chymunedau a theuluoedd er mwyn sicrhau fod gennym wasanaethau da pan fo'u hangen. Mae ymgysylltu pobl â gwasanaethau ar bob lefel yn flaenoriaeth. Ein cymdeithas ni yw hon; ein cymunedau; ein teuluoedd; a'n plant a phobl ifanc. Mae pob un ohonom yn chwarae rhan gyda'n gilydd – ac yng Nghymru mae hynny'n cynnwys y llywodraeth.

Ar y cyfan, rydym am adeiladu patrwm o wasanaethau cymdeithasol sydd wedi'i seilio ar bwysigrwydd ymyrraeth gynnar. Rydym yn awyddus i helpu pobl pan fo'u trafferthion yn dechrau yn y lle cyntaf, nid aros nes fod y broblem wedi gwreiddio.

Rydym yn datblygu ar sail ein cryfderau. Rydym wedi diogelu gwasanaethau cymdeithasol yn setliad y gyllideb. Cafwyd cytundeb ynghylch gwasanaethau cymdeithasol ar draws rhanddeiliaid a phartneriaid. Rydym wedi cryfhau llais gofalwyr. Gosodwyd cyfyngiadau ariannol gennym ar gost cymorth trwy ein Mesur Camau Cyntaf ac rydym wedi cyflwyno Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn raddol. Mae'r gweithlu wedi cael ei gryfhau.

Ond gwyddom fod rhaid i ni wneud mwy os ydym am wynebu'r heriau. Bydd natur newidiol y gymdeithas Gymreig, disgwyliadau mwy eglur ar ran y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau, newid demograffig - ynghyd â'r hinsawdd ariannol anodd ar hyn o bryd - i gyd yn gosod gofynion ar wasanaethau cymdeithasol a fydd yn effeithio ar y modd y bydd y gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi yn ystod y degawdau sydd i ddod.

Rhaid i gynaliadwyedd mewn gwasanaethau cymdeithasol olygu rhanddeiliaid a phartneriaid yn cydweithio, a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ganolog i'r bartneriaeth a'r cydweithio hwnnw.

Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

(i) Arweiniad a Chyfeiriad

Rydym yn cryfhau'r trefniadau arwain ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol trwy sefydlu fforwm partneriaeth cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog. Trwy gyfrwng y trefniadau hyn byddwn yn gosod diben cenedlaethol cryf, cyfeiriad cenedlaethol amlwg a disgwyliadau cadarn.

(ii) Canlyniadau Cenedlaethol

Cyhoeddir fframwaith newydd o ganlyniadau cenedlaethol i gefnogi'r cyfeiriad cenedlaethol a thanategir y rhain gan gyfres o ddangosyddion fydd yn galluogi defnyddwyr a darparwyr ddeall a chael dweud eu dweud am natur ac ansawdd gwasanaethau yn eu hardal. Rydym yn adolygu ein hymagwedd tuag at wella er mwyn sicrhau ei bod yn cydreddeg â'n fframwaith cyfeiriad a chanlyniadau cenedlaethol.

(iii) Lleihau Cymhlethdod a datblygu mwy o gydweithio ac integreiddio

Byddwn yn blaenoriaethu gwaith i leihau cymhlethdod a gorgyffwrdd trwy ragor o gydweithio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol a byddwn yn pwysu am integreiddio gwasanaethau'n well ar draws sefydliadau. Rhaid i ni ddatblygu gwasanaethau o gylch pobl, nid sefydliadau. Rydym wedi gofyn i lywodraeth leol ystyried sut y byddant yn ymateb i'n blaenoriaethau a byddant yn adrodd i ni erbyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn disgwyl i rai gwasanaethau gael eu darparu'n genedlaethol yng Nghymru (fel gwasanaethau mabwysiadu), ac os oes rhaid, byddwn yn gorfodi hyn. Byddwn yn disgwyl gweld rhai gwasanaethau eraill yn cael eu darparu'n rhanbarthol (megis comisiynu a gwasanaethau arbenigol).

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu ail-alluogi ar draws Cymru gyfan. Mae nifer o astudiaethau'n awgrymu y gellir lleihau'r galw am ofal cartref o gymaint o 60% os darperir ail-alluogi, gan arbed costau sylweddol i gynghorau a gwell canlyniadau i unigolion.

(iv) Diogelu

Rydym yn ymrwymedig i symleiddio a chryfhau ein trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion. Byddwn yn sefydlu bwrdd diogelu cenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion i ddarparu arweiniad cenedlaethol ac i hyrwyddo safonau uchel a chyflwyno fframwaith statudol mwy cadarn ar gyfer amddiffyn oedolion yng Nghymru.

(v) Datblygu'r gweithlu a lleihau a symleiddio rheoleiddio ac arolygu

Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar y gweithlu ac i gryfhau cyfraniad staff rheng flaen fel gweithwyr proffesiynol yn arbennig, er enghraifft trwy radd gyrfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Rydym am sicrhau mai'r darparwr gwasanaethau a'r comisiynydd sy'n atebol am ansawdd a gwella diogelwch. Os gwnawn y pethau hyn, gallwn gryfhau a symleiddio rheoleiddio a gwneud arolygu'n llai o faich.

Rhaglen Gyfreithiol

Mae ein rhaglen gyfreithiol gofal cymdeithasol ar gyfer y Cynulliad hwn yn dal dan drafodaeth ond mae ein blaenoriaethau'n cynnwys yr ymrwymadau a amlinellir yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy* ac yn ein maniffesto. Dyma fydd sail ein Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn cael lle amlwg yn y rhaglen gyfreithiol, yn ôl y Prif Weinidog.

Bydd y Bil am y tro cyntaf, yn darparu fframwaith cyfreithiol Cymreig cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, wedi ei seilio ar yr egwyddorion a nodwyd gennym yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy*. Bydd yn sicrhau llais cryf a rheolaeth wirioneddol i bobl sydd angen gwasanaethau, beth bynnag eu hoed, yn seiliedig ar eu hawliau fel dinasyddion, gan sicrhau y

byddant yn gallu cynyddu eu lles i'r eithaf. Bydd yn cydnabod ein bod i gyd yn disgwyl i'n teulu, ein cyfeillion a'n cymunedau ein cefnogi pan fyddwn yn wynebu problemau. Bydd yn sicrhau bod swyddogaeth weithredol i wasanaethau cyhoeddus mewn cefnogi pobl. Bydd yn gosod y fframwaith cyfreithiol a'r seilwaith a fydd yn trawsnewid gwasanaethau fel y gallant fodloni disgwyladau cymdeithasol sy'n newid, demograffeg sy'n newid a'r amgylchedd adnoddau sydd o'n blaenau nawr.

Hoffem yn arbennig i'r Bil egluro a symleiddio dyletswyddau llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill i:

- rymuso a chryfhau llais pobl a rheoli'r gofal a'r cymorth y maen nhw yn ei dderbyn;
- cynllunio a chyflenwi gwasanaethau gyda'n gilydd i hwyluso cydweithio a datblygu modelau integredig newydd o gyflenwi gwasanaethau;
- cael rôl gryfach mewn diogelu a hyrwyddo lles pobl trwy gydol eu bywydau (bydd hyn yn cynnwys ystyried rôl Byrddau Lleol Diogelu Plant);
- cyflwyno asesiadau cludadwy a meini prawf cymhwysedd cenedlaethol er mwyn sicrhau tegwch wrth gael gafael ar gymorth;
- rhoi safonau cyffredin ar waith o ran y gofal a'r cymorth fydd yn cael eu darparu;
- gweithio o fewn trefniadau perfformiad a llywodraethu llym sy'n dryloyw, yn gwneud herio'n bosibl ac yn hyrwyddo hyder pobl Cymru.

ATODIAD 3: DIWEDDARIAD AR FATERION SYDD WEDI'U HETIFEDDU O'R ADRODDIADAU PWYLLGOR IECHYD, LLES A LLYWODRAETH LEOL BLAENOROL

Bydd y Pwyllgor yn ymddiddori yn y cynnydd diweddar ar y materion dilynol, y cyfeirir atynt yn Natganiad Etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol:

(i) Gwasanaethau Mamolaeth

Ar ôl ymgynghori, rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol o *Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru* ym mis Medi Mae'n amlinellu rhaglen weithredu ar lefel genedlaethol a lleol i wireddu ein gweledigaeth, sef y dylai beichiogrwydd a genedigaeth fod yn brofiadau diogel a chadarnhaol sy'n golygu fod y fam, ei phartner a'r teulu'n dechrau rhianta gan deimlo'n hyderus, ac yn abl, ac yn teimlo fod ganddynt gefnogaeth wrth roi cychwyn diogel mewn bywyd i'w plentyn. Bydd Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan yn arwain ac yn goruchwyllo'r broses hon.

(ii) Cynllunio Gweithlu

Fel y nododd y Pwyllgor blaenorol, rhaid moderneiddio'r gweithlu er mwyn bodloni anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl Cymru yn y dyfodol, a'r unig ffordd i gyflawni hynny yw trwy arferion gwaith newydd a newidiadau i rolau gweithwyr proffesiynol a staff cymorth. Mae GIG Cymru'n cyflogi 83,478 o staff, sy'n cyfateb i 72,023 o staff cyfwerth ag amser llawn. Bydd nifer y stad dan gontract mewn swyddi yn lleihau o 518 cyfwerth ag amser llawn rhwng Mai 2010 ac Ebrill 2011.

Mae trefniadau Cynllunio Gweithlu wedi eu cryfhau yng Nghymru yn sgil creu'r Grŵp Cyflenwi Addysg Strategol newydd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y gweithlu cyfan ac yn cynghori ar anghenion dysgu a datblygu cyfredol ac i'r dyfodol i fodloni datblygiadau moderneiddio gwasanaeth a gweithlu. Mae yn Fforwm aml-sgiliau/ amlasiantaeth yw'r Grŵp Cyflenwi Addysg Strategol yn cynnwys pob proffesiwn, cynrychiolaeth o sefydliadau Addysg Uwch; y trydydd sector, undebau llafur a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Mae'r grŵp yn gyfrifol am alinio cynllunio addysg, hyfforddiant a'r gweithlu

Disgwylir i'r diwydiant gofal cymdeithasol dyfu'n sylweddol dros y deng mlynedd nesaf gyda galw am staff ag amrediad sgiliau eang yn sgil hynny. Mae cynllunio'r gweithlu mewn gofal cymdeithasol yn cynnwys dull o weithredu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Gofal Cymru, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau yn y sector annibynnol. Gwnaed gwaith helaeth ar ddatblygu model i ragfynegi galw a chynllunio'r cyflenwad gweithwyr cymdeithasol. Amlinellir gwaith pellach ar gasglu gwybodaeth ar y gweithlu drwy'r system reoleiddio yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru.

(iii) Buddsoddiad mewn Gwasanaethau Cadair Olwyn

Yn dilyn yr Adolygiad Cadeiriau Olwyn, mae £2.2 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn yn cael ei fuddsoddi i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r arian wedi ei ddyrannu bellach ac yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddyblu nifer y staff clinigol ar draws Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu hasesu'n gynt ac yn golygu y gallant gael y gadair olwyn fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r arian hefyd yn cefnogi mwy o hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol, cleifion a'u gofalwyr. Rydym hefyd yn cydweithio â'r Groes Goch Brydeinig i sicrhau gwell gwasanaethau i'r rheini sydd angen benthyg cadair olwyn am gyfnodau byr.

Mae gwaith i wella gwasanaethau o dan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi cyflwyno newidiadau'n barod, yn arbennig i reoli amseroedd aros, gwella prosesau cyfeirio, a chwtdogi amseroedd aros drwy hynny. Mae eglurder ynglŷn â meini prawf cyfeirio, ynghyd â gwell cyfathrebu, yn fodd o sicrhau bod cleifion a gofalwyr yn cael gwell gwybodaeth am ba bryd y bydd eu cadair olwyn yn cyrraedd.

(iv) Orthodonteg

Roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol blaenorol, ac adolygiad ar wahân a gafodd ei gynnal gan banel o arbenigwyr, yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru, BILlau a'r proffesiwn deintyddol eu hystyried. Roedd yr argymhellion yn cynnwys datblygu Rhwydweithiau Clinigol a Reolir er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gan gynnwys rheoli'r cleifion hynny sy'n aros am driniaeth. Mae argymhellion eraill yn cynnwys gwaith cysylltiedig â datblygu gwasanaeth, newidiadau i ddeddfwriaeth, ynghyd â gwell cyfeirio a monitro. Rhoddwyd canllawiau dros dro i BILlau a'r proffesiwn yn barod wedi eu seilio ar argymhellion o'r adolygiad, a sefydlwyd proses weithredu i ystyried argymhellion pellach oedd wedi eu cynnwys yn adroddiadau'r grŵp arbenigwyr a'r Pwyllgor dros y misoedd nesaf.

(v) Gofal Cynenedigol yng Nghymru

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol i Wasanaethau Cynenedigol yng Nghymru, mae'r BILlau wedi rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar Waith, trwy Dîm Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Rhwydwaith Clinigol Cynenedigol newydd enedigol i weithredu'r gwelliannau gwasanaeth a nodwyd. Ar hyn o bryd mae BILlau unigol wrthi'n datblygu Cynlluniau Gweithredu i sbarduno gweithgaredd lleol. Mae'r datblygiadau diweddar yn cynnwys Ambiwlans arbennig â chyfarpar sydd nawr ar waith yn Ne Cymru i drosglwyddo babanod gwael a rhai a aned cyn eu hamser.

(vi) CAF/CASS Cymru

Rydym yn gwneud cynnydd gyda'r adolygiad o wasanaethau cyswllt plant sydd ar gael ar hyd a lled Cymru ar hyn o bryd. Bydd hwn wedi ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2011. Mae CAF/CASS Cymru hefyd yn gweithio'n glòs gyda chydweithwyr polisi i ystyried sut y gellir darparu cymorth cyson, priodol i wella gwasanaethau i deuluoedd sy'n cael problemau o ran sicrhau cyswllt gyda'u plant ar ôl gwahanu.

Cyfarfu Prif Weithredwr CAF/CASS Cymru â Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan ym mis Mai. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i gyd-gytuno ar fframwaith ymgysylltu rhwng darparwyr eiriolaeth a CAF/CASS Cymru i wella a datblygu perthynas waith fwy effeithiol yng nghyswllt eiriolaeth i blant a phobl ifanc.